



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru  
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar  
Goleg Pengwern**

**Dyddiad yr arolygiad: Gorffennaf 2019**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg  
a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Choleg Pengwern

Coleg annibynnol arbenigol yw Coleg Cambian Pengwern, sydd mewn lleoliad gwledig yn Rhuddlan, gogledd Cymru. Er mis Mawrth 2019, mae'r coleg wedi cael ei berchnogi gan grŵp CareTech.

Mae'r coleg wedi'i gofrestru i ddarparu addysg ar gyfer dysgwyr rhwng 16 a 25 oed sydd ag anawsterau dysgu dwys a lluosog, anawsterau corfforol ac anhwylder y sbectrwm awtistig. Mae 41 o ddysgwyr yn mynychu'r coleg ar hyn o bryd. Mae lleoliadau preswyl gan ychydig llai na hanner ohonynt, ac mae'r gweddill yn mynychu fel dysgwyr dydd.

Ers yr ymweliad monitro blaenorol, yn ogystal â newid perchnogion, bu newidiadau o ran y staff i swyddi'r pennaeth gofal a phennaeth y coleg.

Cynhaliwyd arolygiad craidd diwethaf y coleg ym mis Hydref 2014.

## Prif ganfyddiadau

### ***Cryfderau***

Mae dysgwyr yn falch o'u coleg ac maent yn gwybod bod eu safbwyntiau'n cael eu gwerthfawrogi a'u parchu. Mae ganddynt agweddau cadarnhaol at eu dysgu, ac yn ymgymryd yn llwyddiannus ag ystod eang o raglenni o fedrau hanfodol i ofal anifeiliaid a'r celfyddydau creadigol. Mae bron pob un o'r dysgwyr yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o'u targedau a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella. Maent yn gweithio'n galed i wneud y gwelliannau hyn ac yn cywiro unrhyw gamgymeriadau a wneir.

Mae'r coleg yn gymuned addysg gydlynol, gyda staff yn dangos ymrwymiad cryf i ddysgwyr sy'n cyflawni o'u gorau. Mae'r perthnasoedd gwaith effeithiol iawn rhwng staff a dysgwyr yn creu amgylchedd diogel lle mae dysgwyr yn teimlo'n hyderus i fynegi eu barn a dangos eu cyflawniadau. Mae staff yn defnyddio ystod eang o ddulliau cyfathrebu yn effeithiol i alluogi dysgwyr o bob gallu i gymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau yn hyderus.

Mae'r cwricwlwm teilwredig unigol yn diwallu anghenion pob dysgwr yn arbennig o dda ac yn eu galluogi i wneud cynnydd cryf. Mae cysylltiadau buddiol â'r gymuned leol a sefydliadau allanol yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i ddysgwyr ar gyfer datblygiad personol, gan gynnwys cyflogaeth bosibl.

### ***Meysydd i'w datblygu***

Mae'r coleg wedi cryfhau ei brosesau sicrhau ansawdd i lywio ei arfer o ran cynllunio gwelliant yn well, er enghraifft trwy gasglu a dadansoddi data a gwneud defnydd mwy deallus ohono. Fodd bynnag, mae gormod o amrywiad yn y ffordd y caiff cynnydd tuag at dargedau dysgwyr a ffurflenni arsylwi sesiynau addysg eu cofnodi i fod yn gwbl effeithiol ar gyfer cynllunio gwelliant ar lefelau dysgwr unigol, staff a'r coleg cyfan.

Nid yw polisi gwrthfwlio, ymweliadau addysgol a gweithgareddau oddi ar y safle, a pholisiau diogelu'r coleg, yn cynnwys cyfeiriad priodol at ddeddfwriaeth a chanllawiau Llywodraeth Cymru.

### **Argymhellion**

#### **Dylai'r ysgol:**

- A1 Sicrhau bod polisiau'r coleg yn cynnwys cyfeiriad priodol at ddeddfwriaeth a chanllawiau Llywodraeth Cymru**
- A2 Ymgorffori a datblygu ymhellach y trefniadau newydd ar gyfer cynorthwyo a herio'r tîm arweinyddiaeth ar gyfer addysg**
- A3 Cynyddu cysondeb o ran cofnodi a gwneud defnydd gwell o fonitro a sicrhau ansawdd ar gyfer cynllunio gwelliant ar bob lefel**

## **Cynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion o nodyn ymweliad neu adroddiad arolygiad blaenorol**

### **Argymhelliad 1: Sicrhau bod cynllunio tiwtoriaid yn hyrwyddo medrau annibyniaeth dysgwyr, ble bynnag y bo modd**

Ers yr ymweliad monitro blaenorol, mae'r coleg wedi cynyddu ei ffocws ar ddatblygu medrau annibyniaeth dysgwyr. Bellach, dechreuir hyrwyddo'r medrau hyn cyn i ddysgwyr ddechrau yn y coleg, a bydd yn parhau ar ôl iddynt gyrraedd. Er enghraifft, yn y cyfnod pontio, caiff darpar ddysgwyr y coleg eu hannog i gyfleu eu safbwyntiau trwy 'daflenni dewisiadau'. Mae'r taflenni hyn yn defnyddio dulliau cyfathrebu addas i alluogi dysgwyr i wneud eu dymuniadau'n hysbys.

Mae staff addysg a gofal yn eithriadol o ymwybodol fod hyrwyddo annibyniaeth yn flaenoriaeth i ddysgwyr unigol a'r coleg cyfan, ac maent yn gweithio gyda'i gilydd yn dda i gyflawni hyn. Er enghraifft, trwy adeiladu ar weithgareddau dysgu proffesiynol, mae staff addysg wedi addasu eu cynllunio i ddarparu ar gyfer hyn, gan gynnwys rhoi mwy o gyfrifoldeb i ddysgwyr, er enghraifft ar gyfer cadw amser a chyrraedd sesiynau'n annibynnol.

Ar draws y coleg, bu symud nodedig tuag at ddull mwy cyfannol lle mae dysgwyr yn datblygu'r medrau bywyd annibynnol sy'n briodol ar gyfer eu dysgu a'u datblygiad yn y dyfodol. Mae gweithgareddau cydgrwicwlaidd buddiol yn hyrwyddo annibyniaeth dysgwyr yn arbennig o dda. Er enghraifft, mae cymryd rhan mewn gweithgareddau menter pobl ifanc yn llwyddiannus ar lefel ranbarthol a chenedlaethol wedi galluogi dysgwyr i wella eu gallu i weithio fel tîm, ac wedi cynyddu eu hyder. Mae sesiynau eraill, fel y rheiny gyda staff o fanciau a gwasanaethau ariannol lleol, yn helpu dysgwyr i ddatblygu medrau cadarn i ddelio ag arian yn briodol.

Mae rhaglen medrau byw yn annibynnol y coleg wedi hyrwyddo medrau annibyniaeth dysgwyr yn dda hefyd. Mae dysgwyr yn cymryd rhan yn frwdfrydig yn y rhaglen, gan ymgymryd â dyletswyddau domestig, coginio, gwneud gwelyau a gwaith cynnal a chadw yn yr awyr agored fel torri lawntiau. Mae'r gweithgareddau hyn gyda'i gilydd, ynghyd â lleoliadau profiad gwaith addas, yn gwella rhagolygon cyflogaeth dysgwyr lle mae modd cyflawni hyn.

### **Argymhelliad 2: Cryfhau ansawdd a chysondeb gosod targedau fel bod targedau'n fwy penodol a pherthnasol i anghenion a chyrchfannau dysgwyr**

Mae'r coleg wedi blaenoriaethu hyfforddiant priodol ar gyfer staff i wella gosod targedau er mwyn diwallu anghenion dysgwyr yn well ar draws y coleg. Erbyn hyn, mae grwpiau o diwtoriaid yn cyfarfod â'i gilydd i drafod dysgwyr unigol a hwyluso asesu mwy cywir a chysondeb gwell yn ansawdd y broses gosod targedau. Mae gan bob dysgwr chwech o dargedau realistig ac uchelgeisiol, ac fe gaiff tri o'r rhain eu dewis ar gyfer pob sesiwn benodol. Mae'r targedau hyn yn cynnwys targedau academaidd a chymdeithasol, yn ogystal â tharged medrau byw yn annibynnol.

Caiff cynnydd tuag at gyflawniad dysgwyr ei olrhain yn ofalus trwy'r system olrhain ar draws y cwmni. At ei gilydd, mae'r dull hwn yn effeithiol, er nad yw gweithdrefnau

bob amser yn ddigon clir pan gaiff targedau eu cyflawni'n llawer cynharach na'r disgwyl.

### **Argymhelliad 3: Cynorthwyo a herio'r tîm arweinyddiaeth newydd ar gyfer addysg fel eu bod yn llwyddiannus yn eu rolau**

Mae uwch arweinwyr o blith staff addysg genedlaethol a rhanbarthol y coleg wedi cymryd camau addas i gynorthwyo a herio'r tîm arweinyddiaeth newydd ar gyfer addysg fel eu bod yn llwyddiannus yn eu rolau. Er enghraifft, yn ystod cyfnod o newid yn y coleg, mae'r arweinydd rhanbarthol ar gyfer addysg wedi gweithio gydag uwch arweinwyr i ddarparu cymorth ychwanegol, a sefydlu strwythurau cliriach ar gyfer rheolaeth strategol y coleg, a'i reolaeth o ddydd i ddydd.

Mae'r cyfarfodydd wythnosol ar gyfer uwch arweinwyr bellach yn cynnwys arweinwyr addysg, gofal, materion clinigol, pontio, ystadau a gweinyddu. Mae'r cyfarfodydd hyn yn darparu cyfleoedd cynyddol i arweinwyr addysg rannu gwybodaeth â thîm arweinyddiaeth ehangach y coleg a dylanwadu ar ei gyfeiriad strategol cyffredinol. Mae'r cyfarfodydd, ynghyd â chyfleoedd dysgu proffesiynol gwerthfawr, fel rhwydweithio â cholegau ac ysgolion eraill ar draws y grŵp, yn helpu hyrwyddo arfer orau ac ysgogi gwelliant ar draws y coleg.

Er i gynnydd sylweddol gael ei wneud, mae'n rhy gynnar i werthuso effaith gynaleidig y mentrau hyn.

### **Argymhelliad 4: Sicrhau bod arsylwadau gwersi yn cynnwys ffocws digonol ar y cynnydd a wna dysgwyr mewn gwersi**

Mae'r coleg wedi cymryd sawl cam defnyddiol tuag at sicrhau bod arsylwadau gwersi'n cynnwys ffocws digonol ar y cynnydd a wna dysgwyr. Mae'r camau hyn yn cynnwys arsylwadau fesul parau gyda staff o goleg tebyg i drafod a sicrhau ansawdd y dystiolaeth a'r barnau sy'n cael eu llunio, a dadansoddiad coleg cyfan o gryfderau a meysydd i'w gwella.

Yn yr arfer orau, gwneir defnydd effeithiol o ffurflenni arsylwi sesiwn y coleg i ddarparu mewnwelediad clir am y cynnydd a wna dysgwyr mewn medrau penodol, ac effaith yr addysgu ar gynnydd dysgwyr. Fodd bynnag, at ei gilydd, mae gormod o amrywiad yn y ffordd y mae staff yn llenwi'r ffurflenni. Mewn lleiafrif o achosion, nid yw staff yn darparu digon o wybodaeth i'r ffurflenni fod yn ddefnyddiol at ddibenion sicrhau ansawdd a gwella ar lefel dysgwr unigol, staff a choleg cyfan. Hefyd, nid oes ffocws digon cryf ar agweddau dysgwyr at eu gwaith a'r modd y maent yn ymgymryd â phrofiadau a syniadau newydd ac anghyfarwydd.

## Copiâu o'r adroddiad

Mae copiâu o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn  
([www.estyn.llyw.cymru](http://www.estyn.llyw.cymru))

Lluniwyd yr adroddiad yn unol ag Adran 77 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at [cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru](mailto:cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru)

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

[www.estyn.llyw.cymru](http://www.estyn.llyw.cymru)

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2019: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 05/09/2019